# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 19.10.01

**R yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Weinidog y Cynulliad

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o gost llawn hysbysebu yn y *Liberal Democrat News* am Ymgynghorydd Arbennig i'r Democratiaid Rhyddfrydol sydd wedi'i had-dalu yn dilyn y cyhoeddusrwydd a roddwyd i'r taliad. (WAQ13164)

**Lynne Neagle (Tor-faen);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hynt y gwaith o baratoi Cynllun ar gyfer Cymru 2001. (WAQ13163)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael â'r Swyddfa Gartref ynghylch cydlynu cynlluniau wrth gefn ar gyfer y gwasanaethau brys yng Nghymru o ganlyniad i'r digwyddiadau erchyll ar 11 Medi 2001. (WAQ13162)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Yn unol â'r Cytundeb Partneriaeth, pryd y ceir gwared yn raddol ar bob ystafell ddosbarth symudol sydd heb fod yn bodloni'r safonau angenrheidiol. (WAQ13121)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa effaith y mae'r grant ymarfer dysgu wedi'i chael o ran recriwtio graddedigion ychwanegol i'r proffesiwn dysgu. (WAQ13120)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff ddatganiad am ddefnyddio arian y loteri i helpu i ddiogelu adeiladau ysgolion yng Nghymru rhag cael eu llosgi'n fwriadol. (WAQ13158)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Faint o achosion o losgi bwriadol a welwyd mewn ysgolion yn ardal pob AALl yng Nghymru yn ystod pob un o'r 3 blynedd diwethaf. (WAQ13159)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Beth oedd cyfanswm cost achosion o losgi bwriadol yn ardal pob AALl yng Nghymru yn ystod pob un o'r 3 blynedd diwethaf. (WAQ13160)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid a Chymunedau

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynlluniau gwariant newydd ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus allweddol yng Nghymru. (WAQ13148)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Faint o arian sydd wedi'i ddyrannu i Awdurdod Datblygu Cymru y flwyddyn nesaf er mwyn helpu i ddenu buddsoddiad i ranbarth Gorllewin De Cymru. (WAQ13147)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o bobl sydd wedi ymweld â'r model maint llawn o Siambr y Cynulliad Cenedlaethol. (WAQ13119)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon:

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A yw'r cynnydd arfaethedig yng nghyllideb Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnwys darpariaeth ar gyfer yr ailstrwythuro a amlinellwyd yn Adroddiad Everett. (WAQ13161)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Beth yw'r cyfanswm y rhagwelir y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ei wario – o ran refeniw a chyfalaf – ar Ganolfan Mileniwm Cymru rhwng 01/04/01 a 21/03/05, gan roi'r ffigurau ar wahân ar gyfer pob blwyddyn. (WAQ13126)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Faint o gymorth refeniw y bydd angen i Ganolfan Mileniwm Cymru ei gael gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl iddi agor. (WAQ13124)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa gyfran o'r codiadau arfaethedig yn y gyllideb rhwng 2001/02 a 2002/03 a fydd yn rhoi budd uniongyrchol, ar ffurf cymorth ariannol, i'r rhai sy'n gweithio ym maes celfyddyd. (WAQ13122)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd:

**Elin Jones (Ceredigion);** A all y Gweinidog wneud datganiad ar fferm wynt Cefn Croes, Ceredigion, fe y'i cyflwynwyd i'r Adran Masnach a Diwydiant. (WAQ13166)

**Helen Mary Jones (Llanelli);** A all y Gweinidog nodi sut y bydd yr adolygiad egni sydd ar y gweill yn bwydo ac yn cael ei fwydo gan y broses o ailddrafftio Nodyn Cyngor Technegol 8 (Adnewyddadwy) a Pholisi Cynllunio Cymru. (WAQ13150)

**Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y sylwadau y mae wedi'u derbyn ynghylch yr angen am reoliadau cenedlaethol i reoli'r defnydd o jetiau sgi. (WAQ13151)

**Helen Mary Jones (Llanelli);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch sefyllfa Railtrack.(WAQ13152)

**Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A all y Gweinidog roi adroddiad ar gynnydd y Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy. (WAQ13153)

**Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A all y Gweinidog wneud datganiad ar y cynnydd y mae wedi'i wneud o ran llunio fframwaith cynllunio i hybu cynhyrchu egni cynaliadwy.(WAQ13154)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynyddu nifer yr arwyddion cyfeirio ar brif ffyrdd. (WAQ13155)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch yr ystyriaeth y maent wedi'i rhoi i'r cais am drwydded ar gyfer y llosgydd arfaethedig yn Nhywyn Crymlyn yng Nghastell-nedd Port Talbot. (WAQ13156)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru)** Pa gyfarfodydd y mae'r Gweinidog wedi'u cael â gweinidogion cyfatebol yn San Steffan ynghylch gwella cysylltiadau ffyrdd o Loegr i Ganolbarth a Gorllewin Cymru. (WAQ13157)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r trafodaethau y mae wedi'u cael ynghylch dyfodol y rheilffyrdd a rheolaeth y rhwydwaith cledrau yng Nghymru. (WAQ13149)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'r Gweinidog yn cytuno y dylai gwelliannau i'r priffyrdd gymryd i ystyriaeth yr effaith a gaiff y cynlluniau i adnewyddu cangen Sir Drefaldwyn o gamlas y Shropshire Union. (WAQ13129)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn derbyn argymhellion y ddogfen 'Waterways for Tomorrow' a gyhoeddwyd gan HMG ym mis Mehefin 2000. (WAQ13128)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa fudd economaidd a gaiff Cymru o adnewyddu cangen Sir Drefaldwyn o gamlas y Shropshire Union i safon fordwyol hyd at ei chysylltiad â chamlas y Shropshire Union a'r rhwydwaith cenedlaethol o gamlesi. (WAQ13127)

**Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** Pryd y cychwynnir yr ymgynghori ar Reoliadau Trwyddedu Gwastraff 1994. (WAQ13123)

Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** I ba raddau y mae'r gweithgor Diogelwch Tân yn y Gymuned wedi ystyried mynd i'r afael â'r broblem o losgi ysgolion yn fwriadol yng Nghymru (WAQ13165)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygiadau i'r cynllun 'Cefnogi Pobl'. (WAQ13135)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i leddfu problemau digartrefedd yng Nghymru, yn enwedig gan fod y gaeaf ar gychwyn (WAQ13134)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru)** Pa gynlluniau sydd gan y gweinidog i wella safon y llety preifat gwael a osodir ar rent i fyfyrwyr mewn mannau yng Nghymru. (WAQ13133)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff ddatganiad ar gynnwys yn y rhaglen Rhoi Cymunedau yn Gyntaf yr is-wardiau o amddifadedd yn Sir Ddinbych. (WAQ13132)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff ddatganiad ar waith y grwp Diogelwch Tân yn y Gymuned. (WAQ13131)

**Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd);** A fydd yn darparu unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer "Taliadau Colli Cartref" i denantiaid mewn tai parod *(prefab)* yng Nghasnewydd. (WAQ13130)

**Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** Faint o arian sydd wedi cael ei ddyrannu i bob ardal llywodraeth leol ar gyfer y Cynllun Prynu Cartref a faint y mae pob ardal wedi'i wario yn 2000-01 a 2001-02. (WAQ13125)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd:

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Adran Masnach a Diwydiant, yr Undeb Ewropeaidd a chyrff yn y diwydiant am yr effaith ar swyddi yn y diwydiant aerofod yng Nghymru ar ôl y digwyddiadau ar 11 Medi. (WAQ13146)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaed unrhyw asesiad o effaith ymosodiadau'r terfysgwyr ar America a'r hyn ddigwyddodd wedyn ar economi Cymru. (WAQ13145)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth y mae'r Gweinidog wedi'i wneud i liniaru'r problemau diweithdra yn Llandrindod ac Ystradgynlais. (WAQ13144)

**David Melding (Canol De Cymru);** A yw Awdurdod Datblygu Cymru yn cynnal astudiaeth i'r

posibilrwydd o ymestyn y rhedfa yn Sain Tathan fel ffordd o gadw’r DARA yno. (WAQ13143)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y sefyllfa bresennol o ran swyddi yn y diwydiannau awyrennau a’r diwydiannau cynhyrchu cysylltiedig yng Nghymru. (WAQ13142)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi braslun o’r mesurau sy’n cael eu hystyried i adfywio’r diwydiannau twristiaeth a hamdden yng Nghymru. (WAQ13141)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y mentrau a gyflwynwyd i fynd i’r afael ag effaith y swyddi a gollwyd yn y diwydiant dur. (WAQ13140)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** Allwch chi ddweud wrthyf pa gymorth y mae merched sy’n mentro mewn busnes yn ei gael ar hyn o bryd. (WAQ13139)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A oes unrhyw asesiadau wedi’u gwneud o effaith yr argyfwng Terfysgaeth Ryngwladol ar economi twristiaeth Cymru. (WAQ13138)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar unrhyw newidiadau i’r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol. (WAQ13137)

**Lynne Neagle (Tor-faen);** A wnaiff ddatganiad ar adfywio’r cymunedau sydd wedi dioddef yn sgil y swyddi a gollwyd yng ngweithfeydd dur Corus. (WAQ13136)

**Peter Black (Canol De Cymru);** Pa ran a chwaraeodd Awdurdod Datblygu Cymru ym mhenderfyniad IKEA i leoli eu siop newydd yng Nghaerdydd. (WAQ13167)

**Peter Black (Canol De Cymru);** Pa gymorth/mentrau ariannol a gynigiwyd gan Awdurdod Datblygu Cymru a/neu Cyngor Dinas Caerdydd i sicrhau datblygiad siop IKEA. (WAQ13168)

**Peter Black (Canol De Cymru);** Pa gyngor a roddwyd i IKEA gan Awdurdod Datblygu Cymru ynghylch lleoliadau posibl ar gyfer eu siop. (WAQ13169)